## Diben

1. Ystyried cyflwyniad Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i Gomisiwn Richard. Amgaeir y cyflwyniad yn Atodiad 1. Yn ei gyfarfod ar 13 Tachwedd, nododd y Pwyllgor ei fod yn dymuno trafod y cyflwyniad cyn y cyfarfod ar 5 Rhagfyr.

## Y Cefndir

2. Mae'r Cadeirydd wedi derbyn gwahoddiad i roi tystiolaeth i Gomisiwn Richard yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr er mwyn helpu'r Comisiwn gyda'i ymchwiliad i bwerau a threfniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Mae'r cyflwyniad yn disgrifio'r ffordd y mae'r Pwyllgor yn gweithredu ac yn rhoi enghreifftiau penodol o'r modd y mae eglurdeb, ehangder a dyfnder pwerau'r Cynulliad wedi effeithio ar fusnes y Pwyllgor. Yn ogystal, mae'n disgrifio rôl y Pwyllgor wrth graffu ar y Gweinidog a'i bolisïau ac ar is-ddeddfwriaeth y Cynulliad.

## Camau i'r Pwyllgor eu Cymryd

4. Gwahoddir y Pwyllgor i roi sylwadau ar y cyflwyniad.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau Tachwedd 2002**